---------- DECHRAU----------

CYFLE yn Croesawu Athrylith Animeiddio i Gaerdydd

Mae ffilmiau o waith animeiddio anhygoel yn cyrraedd y sgrîn yn amlach fyth dyddiau hyn, fel o *Shrek* i *Ratatouille*. Mae'r campweithiau CGI hyn yn rhoi boddhad i gynulleidfaoedd yn fyd eang. Ond ydych chi erioed wedi ystyried sut mae'r rhain yn cyrraedd y sgrin fawr? A sut mae'r rheolwyr cynhyrchu yn llywio llwybrau bregus y diwydiant er mwyn taro ar lwyddiant?

Mae Cyfle, cwmni hyfforddi'r diwydiannau teledu, ffilm, animeiddio a'r cyfryngau rhyngweithiol yng Nghymru yn gwahodd yr animeiddiwr Nickson Fong o Singapore i Gaerdydd ar 28 May i gynnal dosbarth feistr unigryw. Bydd Nickson, sydd yn rannol gyfrifol am y meddylfryd technolegol tu ôl i'r Matrix, yn cymryd rhan yn y digwyddiad arbennig yn yr **ATRiuM** yng Nghaerdydd ar Ddydd Mercher 28 Mai. Digwyddiad hanfodol i bawb sy'n frwdfrydig am animeiddio.

"Yn sgil cysylltiadau cynyddol Cyfle yn rhyngwladol, rydym yn falch iawn o gael croesawu Nickson Fong i Gymru ac rydym yn edrych ymlaen yn arbennig at gael ein hysgogi ganddo yn ystod ei ddosbarth feistr. Hoffwn ddiolch i S4C, TAC, WAG a WEFO am feddu ar y weledigaeth i ariannu'r rhaglen hyfforddi flaengar."
Iona Williams, Prif Weithredwr Cyfle

Daw Nickson a chyfoeth o brofiad ffilm ryngwladol gydag ef i Gaerdydd, gan gynnwys gweithio gyda Dreamworks SKG (Steven Spielberg), Digimax a Sony Pictures Imageworks. Mae o wedi gweithio fel animeiddiwr CG, Cyfarwyddwr FX a Chyfarwyddwr Technegol ar ffilmiau anferth megis *The Matrix Reloaded* a *Matrix Revolutions*, *Stuart Little*, *The Patriot*, *The Scorpion King*, *Starship Troopers* a *8-Legged Freaks*. Roedd o hefyd yn rhan o'r gwaith cyn gynhyrchu ar *Shrek.* Mae o bellach yn Brif Weithredwr i gwmni Egg Story, cwmni mae o wedi cyd sefydlu yn Singapore sy'n arbenigo mewn animeiddio digidol ac effeithiau. Yn ogystal â hyn, mae o newydd ryddhau'r ffilm nodwedd *KUNG FU Gecko - Saving the World in 2008,* sydd wedi derbyn buddsoddiad ariannol mawr iawn.

"Bydd y digwyddiad yma yn dangos i bobl greadigol ffyrdd o drawsnewid eu talent i wneud elw yn yr arena ryngwladol, gan dynnu ar arbenigedd Nickson Fong a phrofiad cynhyrchwyr llwyddiannus"
David Parrish, Awdur T-shirts and Suits

Ochr yn ochr â Nickson Fong, bydd David Parrish, awdur llawlyfr y Diwydiannau Creadigol, *T-Shirts and Suits,* mewn sgwrs gyda 3 o gynhyrchwyr animeiddio o Gymru. Yn wir, bydd y digwyddiad undydd yma yn dysgu pobl ynglŷn a'r dechnoleg, y gelfyddyd a'r ochr fasnachol tu

ôl i waith animeiddio sy'n llwyddo ar y llwyfan fyd eang. Bydd pwyslais arbennig ar gyd gynhyrchu strategol, cysyniad na ddylai'i gymryd yn ysgafn yn ôl Robin Lyons, Rheolwr Cyfarwyddo Calon:

"Mae Cyd-gynhyrchu yn berthynas, ac mae'r un mor ddifrifol a phriodi. Mae'n rhaid i chi ddewis y partner iawn, mae'n rhaid i chi fod yn sensitif tuag at eu teimladau, ac mae'n hanfodol eich bod chi'n gweithio'n galed i sicrhau ei fod o'n gweithio. Ond, yn wahanol i briodi, dydi cerdded allan pan nad yw'n gweithio ddim yn opsiwn!"

Am ragor o wybodaeth ac er mwyn cofrestru ar gyfer digwyddiad Dosbarth Feistr Animeiddio Cyfle, ewch i *www.cyfle.co.uk*

----------DIWEDD----------

NODIADAU'R GOLYGYDD

Nickson yw Prif Weithredwr a chyd sefydlydd Egg Story, stiwdio animeiddio digidol ac effeithiau yn Singapore. Maent yn cyfuno arweiniaeth creadigol a thechnegol Hollywood gyda gweithlu rhyngwladol i greu, datblygu a dosbarthu animeiddio ac effeithiau gweledol dosbarth fyd eang, gan gynnwys eu ffilm animeiddio fawr diweddaraf- KUNG FU Gecko - Saving the world in 2008!

Bydd y Dosbarth Feistr Animeiddio Cyfle yn digwydd ar ddydd Mercher, 28 Mai, 09:30-16:30 yn yr Atrium, Ysgol y Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol Caerdydd. Mae rhagor o wybodaeth am a ffurflen cofrestru ar gael i'w lawr lwytho o wefan Cyfle- www.cyfle.co.uk

Am ragor o wybodaeth ar gyfer cofrestru am y digwyddiad yma, cysylltwch â Gareth Ioan Davies neu Gwawr Williams yn swyddfa Cyfle: 02920 465533 garethd@cyfle.co.uk / gwawr@cyfle.co.uk